# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Ifor Bach**

**Ysgol Ifor Bach**
**Windsor Way**
**Abertridwr**
**Caerffili**
**CF83 4AB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Ifor Bach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Ifor Bach |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | **19 Medi 2019** |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn cael profiadau gwerth chweil a llwyddiannus yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau gwerthfawr ynglŷn â'r gweithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt ac yn gallu dilyn eu syniadau a'u diddordebau pan fo hynny'n briodol. Mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff ac maent yn rhyngweithio'n hyderus â nhw. Mae'r plant yn gwneud cynnydd gwerthfawr o ran eu dysgu a'u datblygiad a'u sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn gyson. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn werthfawr ac yn gynnes ac mae pob aelod o'r staff yn cefnogi anghenion y plant yn fedrus. Mae'r staff yn cynllunio themâu tymhorol gan gynnwys amrywiaeth werth chweil o weithgareddau amserol. Caiff y themâu a'r syniadau hyn eu harwain gan ddiddordebau'r plant o bryd i'w gilydd. Mae'r staff yn cadw cofnodion defnyddiol o gynnydd a datblygiad y plant.

Mae'r amgylchedd dan do yn groesawgar ac yn cynnwys adnoddau priodol. Mae'r staff yn dilyn arferion rheoli heintiau clir a buddiol. Mae amgylchedd dan do y lleoliad yn lân, yn ddiogel ac yn addas. Mae asesiadau risg ar waith ac yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i bob risg bosibl. Mae amrywiaeth o deganau ac adnoddau o ansawdd da yn y lleoliad. Mae'r ardal awyr agored yn ddigonol ac mae angen ei datblygu ymhellach er mwyn gwella'r ddarpariaeth a'r profiadau a gynigir i'r plant.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain a'i oruchwylio'n briodol. Mae'r tîm o staff yn cydweithio'n dda. Ar ddechrau'r arolygiad, nid oedd Unigolyn Cofrestredig ar waith. Yn ystod y broses arolygu, aethpwyd i'r afael â hyn yn llawn. Mae'r rhieni yn canmol y lleoliad, a'r cyfleoedd a'r gofal y mae eu plant yn eu cael.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn gadarnhaol ac yn ymdopi'n dda wrth ffarwelio â'u gofalwyr. Caiff y plant sy'n ei chael hi'n anodd setlo eu cysuro gan eu gweithwyr allweddol a defnyddir gweithgareddau priodol i dynnu eu sylw. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff, sy'n fuddiol i'w llesiant. Er bod system gweithwyr allweddol ar waith yn y lleoliad, mae'r plant yn gwybod bod y staff yn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion ac maent yn mynd atynt yn hyderus. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd at y staff pan fyddant wedi blino neu'n ofidus ac maent yn cael eu cysuro'n gyson.

Mae'r plant yn chwarae'n effeithiol ac yn cydweithio yn ystod yr holl weithgareddau. Mae bron pob un o'r plant wedi meithrin cyfeillgarwch cadarnhaol â'i gilydd. Er enghraifft, mae'r plant yn cydweithio i adeiladu rheilffordd bren, gan rannu darnau o'r trac a chymryd eu tro i symud y trenau ar hyd y traciau. Mae'r plant yn cefnogi ei gilydd yn gadarnhaol yn ystod yr holl weithgareddau sydd ar gael iddynt. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus â'r staff a gyda'i gilydd yn ystod amser cylch a gweithgareddau. Maent yn dangos diddordeb gwerth chweil ac yn cymryd rhan yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o'r profiadau sydd ar gael iddynt. Mae bron pob un o'r plant yn dangos chwilfrydedd naturiol ac yn manteisio ar y cyfleoedd y maent yn eu cael. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda blawd, ewyn eillio a gliter yn yr hambwrdd twff. Mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i anogaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyffwrdd â gweadau gwahanol, creu siapiau a llythrennau yn y blawd gyda'u bysedd, a chwilota am siapiau wedi'u cuddio yn yr ewyn eillio.

Mae'r plant yn gwybod bod eu ceisiadau a'u syniadau yn cael eu gwerthfawrogi a'u hystyried, ac y gallant benderfynu pa weithgareddau i gymryd rhan ynddynt. Er enghraifft, gallai'r plant benderfynu a oeddent am chwarae gyda'r trên neu gydag unrhyw adnoddau eraill a oedd ar gael. Caiff dulliau cyfathrebu'r plant eu gwerthfawrogi a chânt eu hannog i ymateb i gwestiynau ac awgrymiadau'r staff. Er enghraifft, caiff y gofrestr ei chwblhau yn ystod amser cylch, a disgwylir i'r plant ymateb os ydynt yn bresennol. Anogir y plant i ddisgrifio'r tywydd cyn canu cân syml am y glaw. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser ac yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw anogaeth gan y staff.

Mae'r plant yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol amrywiol. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys canu am redeg wrth iddynt redeg o amgylch yn ceisio dal ei gilydd. Gallai'r plant stopio pan oedd y gerddoriaeth yn peidio, a symud i'r safle cychwynnol heb anogaeth.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cael cyfleoedd cyfyngedig i feithrin eu sgiliau annibyniaeth, yn benodol wrth wisgo eu hunain cyn mynd allan i'r awyr agored ac wrth weini eu hunain yn

ystod amser byrbryd. Mae'r plant yn golchi eu dwylo yn annibynnol cyn ac ar ôl bwyta byrbrydau.

| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
|---|---|

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn gyson er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn deall gweithdrefnau diogelu'r lleoliad yn llwyr ac yn dweud eu bod yn cael hyfforddiant rheolaidd ar ddiogelu. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau'n effeithiol ac yn dadansoddi achosion misol. Maent yn sicrhau y rhoddir gwybod i rieni am unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau ac y gofynnir iddynt lofnodi pob adroddiad. Mae'r staff yn meddu ar gymwysterau cymorth cyntaf pediatrig ac maent yn delio â damweiniau yn briodol. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau pwrpasol y lleoliad ar gyfer cofnodi meddyginiaeth a roddwyd a storio meddyginiaeth yn ddiogel. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys sicrhau y caiff meddyginiaethau eu storio yn eu cynwysyddion gwreiddiol a'u labelu ag enw'r plentyn a'r dos. Nodir y dos diwethaf a roddwyd yn y ddogfennaeth berthnasol.

Mae'r staff yn meddu ar gymwysterau hylendid bwyd perthnasol ac maent yn dilyn gweithdrefnau glanhau trylwyr fel rhan o'r prosesau rheoli heintiau. Maent yn paratoi byrbrydau iach ac yn sicrhau bod yr arwynebau a'r adnoddau'n cael eu glanhau'n effeithiol cyn ac ar ôl iddynt gael eu defnyddio. Er enghraifft, mae'r staff yn darparu ffrwythau ffres, ffyn moron gyda hwmws, a chrempogau. Mae'r staff yn annog y plant i olchi a sychu eu dwylo cyn ac ar ôl gweithgareddau ac amseroedd bwyd.

Mae gan y staff gydberthnasau gwerth chweil a chadarnhaol â'r plant. Er bod system gweithwyr allweddol ar waith, mae'r plant yn hyderus i fynd at bob aelod o'r staff. Mae'r staff yn garedig, yn ofalgar ac yn amyneddgar ac maent yn defnyddio strategaethau priodol â'r plant. Maent yn dangos ymddygiad derbyniol drwy gyswllt cyson â'r plant. Er enghraifft, mae'r staff yn eistedd gyda'r plant yn ystod gweithgareddau i drafod syniadau ac yn ystod amseroedd bwyd er mwyn dangos arferion bwyta da. Mae'r staff yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad pwrpasol yn unol â'u polisi. Caiff y plant eu hatgoffa'n gyson o ymddygiad derbyniol drwy awgrymiadau fel "*Kind hands*" a "*Do we do that?*", ac mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i'r ffiniau sydd ar waith. Mae'r staff yn hybu llesiant corfforol drwy roi cyfleoedd i'r plant fynd i chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r staff yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant. Mae'r profiadau a gynllunnir yn cynnwys adeiladu â blociau, defnyddio ewyn eillio a gliter i gynnig profiadau o weadau, a gweithgareddau celf a chrefft perthnasol. Mae'r staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn effeithiol â'r plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u hanghenion a rhesymau posibl dros newid yn eu hymddygiad. Mae'r staff yn arsylwi ar gyflawniadau a datblygiadau'r plant yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys sylwadau am eu sgiliau ysgrifennu a gwneud marciau, eu lleferydd a'u hymddygiad. Mae'r staff yn deall sut i ddiwallu anghenion y plant y mae angen mwy o gymorth arnynt, Mae'r staff yn gweithio'n agos gyda phobl o'r awdurdod lleol ac maent yn defnyddio'r adnoddau a ddarperir iddynt, fel siartiau ymddygiad, i gefnogi'r

plant. Mae'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus drwy adrodd straeon, canu a thrafod.

**Yr Amgylchedd** **Digonol**

Mae'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn ddiogel. Gellir cael mynediad i'r lleoliad drwy'r ardal awyr agored sydd wedi'i diogelu â giât. Mae ymwelwyr yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael y safle.  Gellir cyrraedd yr ardal awyr agored yn ddiogel o'r lleoliad ac mae wedi'i hamgylchynu â ffens ddiogel. Mae asesiadau risg pwrpasol ar waith sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r staff yn cwblhau gwiriadau dyddiol, sy'n cynnwys asesiadau o'r ardal awyr agored. Caiff yr holl wiriadau diogelwch gofynnol eu cwblhau gan yr ysgol o fewn yr amserlenni gofynnol, gan gynnwys profion tân a thrydanol. Fodd bynnag, nid oes copïau o'r holl wybodaeth berthnasol ar gael yn hawdd yn y lleoliad ar hyn o bryd. Mae'r safle yn lân ac yn ddiogel ac mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid da. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn briodol, ac mae'r staff yn dilyn canllawiau i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y plant.

Mae'r safle'n gynnes ac yn groesawgar ac mae'n cynnig amgylchedd addas i'r plant chwarae a dysgu. Defnyddir yr amgylchedd dan do yn effeithiol i hyrwyddo dysgu a datblygiad. Mae amrywiaeth ddefnyddiol o deganau ac adnoddau dan do yn y lleoliad sy'n briodol i oedran y plant ac yn cynnal eu diddordeb. Er enghraifft llyfrau, tŷ doliau pren mawr, soffa ac adnoddau gwisgo i fyny. Mae'r lleoliad yn defnyddio dodrefn a deunyddiau naturiol a chynaliadwy, ac mae'r cyfarpar yn briodol ac o ansawdd da. Ar hyn o bryd, ni all y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wneud gwaith adnewyddu na gwelliannau i'r ardal dan do. Y rheswm dros yw bod cynlluniau ar waith i symud i adeilad pwrpasol newydd yn fuan. Mae'r ardal dan do yn fawr ac yn agored, sy'n sicrhau bod gan y plant fynediad rhydd i'r holl weithgareddau. Caiff y rhan fwyaf o'r adnoddau eu storio ar lefelau sy'n briodol i oedran y plant a gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae'r ardal awyr agored wedi'i chyfyngu i ardal laswelltog ac arwyneb caled sy'n cyfyngu ar gyfleoedd y plant. Mae'r adnoddau yn yr ardal awyr agored yn gyfyngedig ac nid yw pob un ohonynt yn addas ar gyfer tywydd gwlyb. Mae angen datblygu'r ardal awyr agored a chynnwys adnoddau pwrpasol i wella profiadau'r plant.

Mae'r holl deganau a chyfarpar chwarae yn lân ac mewn cyflwr da. Gwelsom y staff yn glanhau ac yn golchi adnoddau a ddefnyddiwyd yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Digonol**

Mae'r lleoliad yn cael ei arwain a'i reoli'n foddhaol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn addas ac yn brofiadol. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd Unigolyn Cofrestredig ar waith yn y lleoliad, ond mae hyn bellach wedi'i unioni. Bellach, mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad a disgwyliadau clir o ran y staff a'r cyfleoedd a gynigir i'r plant. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni am y ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau'n drylwyr nac yn sicrhau bod y staff yn llofnodi i ddangos eu bod wedi cael copïau o'r holl bolisïau perthnasol ac wedi eu deall. Mae systemau cadw cofnodion ar waith ac mae'r holl gofnodion disgwyliedig yn gyfredol ac yn drefnus. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau yn unol â'r rheoliadau, gan ddarparu gwybodaeth berthnasol ar yr adegau cywir. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth yn gyfredol, y caiff y plant eu diogelu ac y caiff eu llesiant ei hyrwyddo.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau addas ar waith i werthuso'r lleoliad. Maent yn hunanwerthuso'r lleoliad yn briodol ac yn casglu adborth gan y rhieni, y staff, a'r plant. Caiff y wybodaeth a gesglir ei defnyddio'n ddigonol yn yr adroddiad ar ansawdd y gofal. Defnyddir y wybodaeth hon i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella cyfleoedd i'r plant ymhellach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwerthfawrogi eu staff. Maent yn sicrhau bod digon o staff cymwys a phrofiadol yn bresennol i sicrhau bod y plant yn cael gofal da bob amser. Mae gwaith tîm yn un o gryfderau'r tîm o staff, ac mae'r staff yn gweithio'n llwyddiannus i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant. Mae prosesau recriwtio trylwyr ar waith er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gymwys ac yn addas i weithio gyda phlant. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd cofnodion o sesiynau goruchwylio ac arfarniadau i gefnogi'r staff i ddatblygu'n broffesiynol a bodloni gofynion hyfforddiant ar gael yn hawdd. Ers yr arolygiad, mae enghreifftiau a chofnodion wedi'u darparu ar gyfer rhai sesiynau goruchwylio ac arfarniadau a gynhaliwyd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr ac y gallant siarad a thrafod unrhyw bryderon yn hyderus â nhw. Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd er mwyn sicrhau y cyfathrebir yn effeithiol â phob aelod o'r staff.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni ac asiantaethau allanol yn werth chweil. Mae'r staff yn rhannu diweddariadau dyddiol rheolaidd â'r rhieni pan fyddant yn casglu eu plant, drwy negeseuon testun, a thrwy gylchlythyr rheolaidd. Mae'r wybodaeth ddyddiol a rennir yn cynnwys gweithgareddau, bwyd ac unrhyw faterion sy'n codi. Dywedodd y rhieni wrthym fod y gofal y mae eu plant yn ei gael yn gyson dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin cysylltiadau cryf â gweithwyr proffesiynol allweddol fel yr awdurdod lleol a'r

ysgolion cynradd lleol. Cynhelir cyfarfodydd pontio rheolaidd i gefnogi'r broses o newid lleoliad a sicrhau cymorth ar gyfer pob plentyn, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob cyflogai sy'n gofalu am blant perthnasol yn cael eu hyfforddi, eu goruchwylio a'u hyfforddi'n briodol | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau bod yr holl wybodaeth am brofion tân ar gael i'w harchwilio bob amser. |
| Safon 8 – Maeth a lles | Sicrhau y caiff yr holl bolisïau eu hadolygu'n gyson a'u llofnodi a'u dyddio. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Gwella'r ddarpariaeth awyr agored er mwyn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd effeithiol i wella eu chwarae a'u dysgu. |
| Cynnig mwy o gyfleoedd i'r plant fod yn annibynnol, yn enwedig yn ystod amser byrbryd. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/04/2024